cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

**2023/24**

# PTCCG1 Cais am help i dalu costau gofal plant ar gyfer myfyrwyr rhan-amser

Enw

Cyfeiriad

## Gwybodaeth bwysig

- Defnyddir y costau **a amcangyfrifir** y nodwch yn y ffurflen hon i gyfrifo'ch taliadau Grant Gofal Plant. Bydd angen i chi gadarnhau'ch costau go iawn yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn anfon ffurflen Cadarnhad o daliadau gofal plant ar gyfer myfyrwyr rhan-amser (PTCCG2) atoch i'ch galluogi i wneud hynny.
- Ni ddylech hawlio Grant Gofal Plant am gyfnod sy'n cael ei gynnal gan unrhyw le dysgu cynnar am ddim.
- Peidiwch â chwblhau'r ffurflen hon os yw'ch gŵr, gwraig neu bartner yn derbyn Gofal Plant Di-dreth gan HMRC, neu'r elfen gofal plant o naill ai'r Credyd Treth Gwaith neu'r Credyd Cynhwysol.
- Peidiwch â chwblhau'r ffurflen hon os ydych chi neu'ch partner yn cael Lwfans Gofal Plant gan y GIG yn rhan o becyn cyllid i fyfyrwyr.

**Sut i lenwi'r ffurflen hon**

**1)** Rhaid i **chi** lenwi **adran 1**, gan ddarparu unrhyw ddogfennaeth y gofynnir amdani. Os na fydd cwestiwn yn berthnasol i chi, nodwch 'Amh' neu 'Dim'. Os na wnewch hyn, efallai y byddwn yn dychwelyd y ffurflen atoch a gallai achosi oedi yn eich cais am Grant Gofal Plant.

**2)** Rhaid i'ch **darparwr gofal plant** lenwi **adran 2**. Rhaid i chi ddefnyddio darparwr gofal plant cofrestredig neu gymeradwy. Os nad ydych wedi dod o hyd i ddarparwr gofal plant eto, dylech lenwi'r ffurflen gan adael adran 2 yn wag, a'i dychwelyd. Byddwn yn gofyn i chi ddarparu manylion y darparwr gofal plant yn nes ymlaen. Pennir uchafswm ar gyfer eich Grant Gofal Plant. Bydd yr uchafswm y gallwch gael yn ddibynnol ar ddwyster eich cwrs. Cynhelir ailasesiad ar ô i chi ddarparu manylion eich darparwr gofal plant.

**3)** Unwaith y bydd eich ffurflen wedi ei chwblhau a'r datganiad wedi ei lofnodi a'i ddyddio, dylech ei dychwelyd at: **Cyllid Myfyrwyr Cymru, Blwch Post 211, Cyffordd Llandudno, LL30 9FU**

I gael gwybod sut fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch, ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd** i ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn llenwi'r ffurflen hon.

! **Mae'n drosedd i ddarparu gwybodaeth anwir yn y ffurflen hon yn fwriadol.** Felly, dylech sicrhau bod yr holl wybodaeth a ddarparir mor gywir ag y bo modd.

# Adran 1 - manylion y myfyriwr

**a**

Cyfeirnod Cwsmer

Eich enw(au) cyntaf

Eich cyfenw

Dyddiad geni (Dydd / Mis / Blwyddyn)

Cyfeiriad llawn eich contact presennol

Cod post

**b**

**Gofal plant yn ystod eich blwyddyn academaidd**

Isod, nodwch fanylion y plant fydd yn cael gofal plant cofrestredig neu gymeradwy yn ystod eich blwyddyn academaidd. Dim ond y gofal plant a ddarparir o ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd 2023/24 y dylech ei gynnwys.

| Enw llawn y plentyn | Dyddiad geni | Dyddiad cychwyn gofal plant ym mlwyddyn academaidd 2023/24 |
|---|---|---|
| 1 | Dydd Mis Blwyddyn | Dydd Mis Blwyddyn |
| 2 | Dydd Mis Blwyddyn | Dydd Mis Blwyddyn |
| 3 | Dydd Mis Blwyddyn | Dydd Mis Blwyddyn |
| 4 | Dydd Mis Blwyddyn | Dydd Mis Blwyddyn |
| 5 | Dydd Mis Blwyddyn | Dydd Mis Blwyddyn |

**A fyddech gystal â darparu copi o dystysgrif geni eich plentyn(plant), ynghyd â chopi o'r hysbysiad Credyd Treth Plant, yr hysbysiad Credyd Treth Gwaith neu'r hysbysiad Credyd Cynhwysol diweddaraf a gawsoch gan Gyllid a Thollau EM.**

# Adran 1 - manylion y myfyriwr

## parhad

**c**

Efallai y byddwch yn cael lle am ddim ar gyfer plentyn tair neu bedair oed gan Wasanaeth Blynyddoedd Cynnar eich awdurdod lleol. Mewn achos o'r fath, byddant yn talu neu'n ad-dalu holl gostau'r lle, beth bynnag fo'ch incwm. Nid allwch wneud cais am Grant Gofal Plant i dalu am y lleoedd hyn. Dylai'ch darparwr gofal plant hawlio'r costau hyn yn uniongyrchol trwy'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar.

A fydd unrhyw blentyn y cyfeiriwyd atynt yn adran 1b yn cael lle Dysgu Blynyddoedd Cynnar am ddim ar gyfer plant tair a phedair oed **yn ystod y** flwyddyn academaidd?

Bydd ☐ Na fydd ☐

Os 'Bydd', nodwch enw a chyfeiriad y darparwr(darparwyr) isod.

Cod post

**d**

Peidiwch â chynnwys unrhyw gostau sy'n cael eu talu trwy addysg Blynyddoedd Cynnar am ddim ar gyfer plant tair a phedair oed. Rhowch enw pob plentyn ac amcangyfrif eich costau gofal plant wythnosol, wedi i chi dynnu'r grantiau eraill ar gyfer gofal plant, yn ystod eich blwyddyn academaidd. Y cynharaf y gallwn dalu am eich costau gofal plant yw ar ddechrau'r flwyddyn academaidd (fel arfer bydd hyn ar 1 Medi 2023). Llenwch `Costau wythnosol arferol cyn tymor 1' os ydych chi eisiau hawlio ar gyfer y cyfnod rhwng diwrnod cyntaf eich blwyddyn academaidd a dechrau tymor 1.

| **Costau wythnosol arferol (amcangyfrifon)** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r plentyn** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** |
| **Cyn tymor 1** | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Tymor 1** | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Gwyliau 1** | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Tymor 2** | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Gwyliau 2** | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Tymor 3** | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Os ydych ym mlwyddyn olaf eich cwrs, dim ond tan ddiwrnod olaf eich tymor olaf y gallwn dalu'r Grant Gofal Plant.** | | | | | |
| **Ar ôl tymor 3** | £ | £ | £ | £ | £ |

Os bydd unrhyw rai o'ch costau gofal plant yn amrywio o'r rhai a nodir uchod, dylech ddarparu manylion y rhain yn 1e.

Efallai y bydd o gymorth i chi wneud cofnod o'r amcangyfrifon uchod ar gyfer pan fydd yn rhaid i chi nodi'ch costau go iawn ar ffurflen PTCCG2.

# Adran 1 - manylion y myfyriwr

parhad

Gofynnir i chi a'ch darparwr gofal plant lenwi ffurflen ar wahân, PTCCG2, dair gwaith yn ystod y flwyddyn. Rhaid i chi lenwi ffurflen PTCCG2 ar yr adegau canlynol:

- **22 Hydref 2023**
- **21 Ionawr 2024**
- **31 Awst 2024**

Dylai myfyrwyr ym mlwyddyn olaf eu cwrs a myfyrwyr nad ydynt yn defnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau hir, ddychwelyd eu trydedd ffurflen PTCCG2 erbyn 11 Gorffennaf 2024.

**Eithriadau i amcangyfrifon gofal plant**

e Os nad ydych yn talu am ofal plant ar gyfer gwyliau neu dymor cyfan, neu os bydd eich costau gofal plant yn wahanol yn ystod unrhyw wythnos i'r rhai a nodwyd gennych yn 1d, nodwch ddyddiadau'r wythnosau pan fyddwch yn talu gwahanol gostau isod.

| Enw'r plentyn | Rheswm dros y gwahaniaeth yn yr amcangyfrif o gostau wythnosol | Rhwng (DD/MM/BBBB) | A (DD/MM/BBBB) | Costau gofal plant wythnosol arferol |
|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | £ |
| 2 | | | | £ |
| 3 | | | | £ |
| 4 | | | | £ |
| 5 | | | | £ |

# Datganiad y Myfyriwr

Os na allwch lofnodi'r ffurflen, rhaid i'ch atwrnai ei llofnodi ar eich rhan. Rhaid anfon llythyr y Pŵer Atwrnai gyda'r cais hwn cyn y derbynnir llofnod gan y atwrnai hwnnw.

- Rwy'n cadarnhau fod yr wybodaeth rwyf wedi ei darparu, hyd eithaf fy ngwybodaeth a chred, yn wir a chyflawn. Os nad yw, rwy'n deall ei bod yn bosibl na fyddaf yn derbyn cymorth ariannol, y bydd unrhyw gefnogaeth yr wyf wedi ei chael yn cael ei thynnu yn ôl ac y gellir fy erlyn. Gellir ystyried unrhyw wybodaeth a ddarperir a ganfyddir i fod yn faterol anghywir fel tystiolaeth o ymgais i gamarwain y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyf (SLC). Dan amgylchiadau o'r fath, gall yr SLC adrodd am y mater i'r awdurdodau ac/neu derfynu fy nghymhwysedd am gyllid i fyfyrwyr.
- Rwy'n cytuno i ddarparu unrhyw wybodaeth ag sydd ei hangen yn rhesymol i brosesu fy nghais, ac rwy'n cytuno i ddarparu hysbysiad ar unwaith o, a manylion parthed, unrhyw newid yn fy amgylchiadau a allai effeithio mewn unrhyw fodd ar fy hawl i gymorth ariannol.
- Rwy'n deall os na fyddaf yn darparu hysbysiad am unrhyw newid yn fy amgylchiadau, a all effeithio ar fy hawl, ei bod hi'n bosib na fyddaf yn gymwys i dderbyn unrhyw daliadau yr wyf wedi fy hysbysu amdanynt, ac y gallai fod angen i mi ad-dalu'r cyfan neu ran o'r cymorth ariannol a dalwyd i mi eisoes yn y flwyddyn.
- Os na fyddaf yn manteisio ar y gofal plant neu os byddaf yn newid i ddarparwr gofal plant nad yw'n gofrestredig neu'n gymeradwy, deallaf y bydd yn rhaid i mi ad-dalu unrhyw ordaliad a wnaethpwyd.
- Os na fyddaf yn darparu'r dystiolaeth o gostau gofal plant o fewn yr amserlenni a bennwyd, deallaf y gallwn golli fy hawl ac y bydd gall fod angen i mi ad-dalu'r holl gymorth ariannol a dalwyd i mi, neu rywfaint ohono.
- Rwy'n cadarnhau nad ydw i na fy ngŵr, gwraig, partner sifil neu bartner sy'n cydfyw wedi dewis derbyn cefnogaeth ar gyfer gofal plant o elfen gofal plant: (i) y Credyd Treth Gwaith; (ii), y Credyd Cynhwysol; (iii) Gofal Plant Di-dreth; ac/neu (iv) Lwfans Gofal Plant y GIG; ac rwy'n cytuno i ddweud wrth yr SLC ar unwaith os bydd fy ngŵr, gwraig, partner sifil neu bartner sy'n cydfyw yn derbyn y gefnogaeth hon. Rwy'n deall bod SLC yn cadw'r hawl i rannu fy nata personol gyda Chyllid a Thollau EM ("HMRC") i wirio a ydw i'n derbyn cefnogaeth gofal plant gan HMRC.
- Rwy'n cadarnhau ble rwyf wedi darparu unrhyw wybodaeth bersonol parthed trydydd parti, rwyf wedi eu hysbysu o hyn.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU) | | | |
| Eich llofnod | X | Dyddiad | Dydd / Mis / Blwyddyn |

# Rhestr gyfeirio myfyriwr

**Cyn dychwelyd y ffurflen hon, dylech sicrhau eich bod wedi:**

- darllen yr wybodaeth ar dudalen flaen y ffurflen hon; **ticiwch** ☐
- ateb yr holl gwestiynau perthnasol yn llawn; **ticiwch** ☐
- cynnwys yr holl ddogfennau perthnasol; **ticiwch** ☐
- llofnodi a dyddio'r Datganiad Myfyriwr; a **ticiwch** ☐
- threfnu bod eich darparwr gofal plant yn llenwi adran 2 (pan fo hynny'n berthnasol). **ticiwch** ☐

**Os nad oes gennych chi ddigon o le i ateb unrhyw gwestiwn, dylech ddefnyddio tudalen o bapur ar wahân a'i gosod wrth y ffurflen hon.**

**Cofiwch dalu'r pris postio cywir.**

Unwaith y bydd eich ffurflen wedi ei chwblhau a'r datganiad wedi ei lofnodi a'i ddyddio, dylech ei dychwelyd at: **Cyllid Myfyrwyr Cymru, Blwch Post 211, Cyffordd Llandudno, LL30 9FU**

# Adran 2 - manylion darparwr gofal plant

**Efallai y byddwn yn rhannu'r manylion a ddarparwch gyda'r awdurdod cofrestru/cymeradwyo perthnasol i gadarnhau eich cofrestriad/cymeradwyaeth. Os byddwn yn dod yn ymwybodol o weithgaredd twyllodrus, byddwn yn rhannu manylion y darparwr a roddwch i ni gyda Cifas.**

## Manylion y darparwr gofal plant

Enw'r darparwr gofal plant

Enw(au) y plentyn/plant sy'n cael gofal

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn

## Manylion cymeradwyo/cofrestru'r darparwr gofal plant

Ticiwch y blwch priodol a darparwch y manylion y gofynnir amdanynt.

☐ **Fel darparwr gofal plant yng Nghymru, rydw i wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).**

Rhif cofrestru (pan fo hynny'n berthnasol)

Dyddiad cofrestru — Dydd Mis Blwyddyn

☐ **Fel darparwr gofal plant yn Lloegr, rydw i wedi cofrestru gydag Ofsted.**

Rhif cofrestru (pan fo hynny'n berthnasol)

Dyddiad cofrestru — Dydd Mis Blwyddyn

☐ **Fel darparwr gofal plant yng Ngogledd Iwerddon, rydw i wedi cofrestru gydag Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.**

Rhif cofrestru (pan fo hynny'n berthnasol)

Dyddiad cofrestru — Dydd Mis Blwyddyn

☐ **Fel darparwr gofal plant yn yr Alban, rydw i wedi cofrestru gyda Chomisiwn yr Alban ar gyfer Rheoleiddio Gofal.**

Rhif cofrestru (pan fo hynny'n berthnasol)

Dyddiad cofrestru — Dydd Mis Blwyddyn

# Adran 2 - manylion darparwr gofal plant

parhad

☐ **Rydw i wedi cael fy nghymeradwyo dan Gynllun Cymeradwyo Gofal Plant Cymru.**

Cyfeirnod y cymeradwywr ☐☐☐☐☐☐☐☐

Dyddiad cofrestru — Dydd ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

Cofrestriad yn ddilys tan — Dydd ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

Rhif datgeliad ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

☐ **Rwyf wedi fy nghymeradwyo neu gofrestru gyda sefydliad arall ac rwyf wedi rhoi eu manylion isod.**

Enw a chyfeiriad y sefydliad a roddodd gymeradwyaeth neu yr ydych wedi cofrestru gyda nhw.

Cod post

Rhif ffôn

Cyfeirnod ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

Dyddiad cymeradwyo neu gofrestru.

Bydd hwn yn para o — Dydd ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

Tan — Dydd ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

## Datganiad y darparwr gofal plant

Rydw i'n cytuno i ddarparu gofal plant fel y nodir yn adran 1 y ffurflen hon, a bod y gofal plant hwn wedi ei gymeradwyo gan neu ei gofrestru gyda'r sefydliad a nodwyd gennyf.

Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU)

Swydd

Eich llofnod **X**

Dyddiad — Dydd ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

**Mae'n drosedd darparu gwybodaeth anwir yn y ffurflen hon yn fwriadol.**